

Credyd: Chris Ridley
Role
Cadeirydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol
Mae gan Dr Simon Thurley CBE brofiad helaeth yn y sector treftadaeth, gan gynnwys 13 mlynedd fel prif weithredwr English Heritage.

Penodwyd Simon Thurley yn Gadeirydd Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar 1 Ebrill 2021.

Mae Simon yn hanesydd ac arbenigwr treftadaeth nodedig. Mae'n gwasanaethu ar yr Awdurdod Cyflwyno ar gyfer Adfer ac Adnewyddu Senedd y DU, mae'n aelod o Fwrdd Rhaglen Gyfalaf y Llyfrgell Brydeinig ac yn gadeirydd Sefydliad Andrew Lloyd Webber. Rhwng 2002 a 2015 roedd yn brif weithredwr English Heritage, yn gyfrifol am Gasgliad Treftadaeth Genedlaethol o 420 o safleoedd gan gynnwys Stonehenge a Chastell Dover, yn ogystal â'r system Diogelu Treftadaeth Genedlaethol, gan gynnwys rhestru adeiladau. Chwaraeodd ran wrth sefydlu'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, lle bu'n ymddiriedolwr tan 2015, a fe wnaeth feistroli'r broses o drawsnewid English Heritage yn Ymddiriedolaeth elusennol.

Am bum mlynedd o 1997 roedd Simon yn gyfarwyddwr Amgueddfa Llundain, amgueddfa ddinesig fwyaf y byd, a'i huned archeolegol MoLAS. Am wyth mlynedd yn y 1990au bu'n Guradur ac yn Syrfëwr yr Fabric mewn Palasau Brenhinol Hanesyddol, gan arwain prosiectau amrywiol gan gynnwys Adfer y Cyfrin Ardd yn Llys Hampton.

Fel hanesydd mae Simon wedi ysgrifennu tri ar ddeg o lyfrau gan gynnwys hanes *English Architecture*, *Building England* a'r stori diogelu treftadaeth, *Men from the Ministry*.

Yn 2011 cafodd ei wneud yn CBE am wasanaethau i dreftadaeth. Mae'n briod gyda dau o blant ac yn byw yn Norfolk.